


Ardal Chwarae Parc Gwledig Cosmeston

Yr ardal chwarae heddiw

Nodiadau

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi dyrannu swm o £240,000 i uwchraddio'r ardal chwarae ym Mharc Gwledig Cosmeston sydd mewn cyflwr gwael ac sy'n cynnig gwerth chwarae cyfyngedig.



Mae llawer o'r cyfarpar, biniau, byrddau picnic a ffensys presennol mewn cyflwr gwael iawn ac mae angen eu hadnewyddu ar frys.



Mae'r arwyneb wrth y fynedfa ac o fewn yr ardal chwarae wedi'i dreulio ac mae'n fwdlyd am y rhan fwyaf o'r flwyddyn.



Ardal Chwarae Parc Gwledig Cosmeston

Dyluniad arfaethedig

Ardal chwarae: Prif nodweddion




Mae'r Cyngor yn gwahodd sylwadau a safbwyntiau trigolion lleol i helpu i ddatblygu gwelliannau ar gyfer yr ardal hon. Cwblhewch yr holiadur. Mae cwestiynau i'w hystyried yn cynnwys:

- Ydych chi'n cytuno y dylid uwchraddio a dylunio'r ardal chwarae ar gyfer plant rhwng 2 a 12 oed?
- Pa fath o offer hoffech chi eu gweld yma? Pren / dur?
- Cynigir thema ganoloesol yn bennaf i ategu'r pentref canoloesol; ydych chi'n cytuno? A fyddai'n well genych weld thema wahanol ar yr ardal chwarae newydd, os felly, beth fyddai hyn?
- A ddylid ffensio'r ardal chwarae?
- Hoffech chi weld ardal picnic gyda lle ar gyfer cyfleusterau lluniaeth bach?
- Oes unrhyw sylwadau eraill gennych?

- **Mae'r cynigion i uwchraddio'r ardal chwarae yn cynnwys:**
- Gwaredu'r cyfarpar chwarae a'r arwynebau presennol (gellir cadw'r uned siglen Viper)
- Dylunio gan ddefnyddio thema ganoloesol gydag amrywiaeth o gyfarpar chwarae mewn pren a metal sy'n addas ar gyfer plant rhwng 2 a 12 oed.
- Seddi, byrddau picnic a biniau newydd i'w gosod
- Ffens newydd â phen bwa 1 metr o uchder i gael ei gosod o gwmpas yr ardal chwarae i gymryd lle'r ffens bren bresennol
- Plannu coed, llwyni neu ddôl blodau gwyllt brodorol
- Rhoi arwyneb newydd ar y llwybr mynediad i'r ardal chwarae
- Byrddau picnic newydd a sylfaen ar gyfer cyfleusterau lluniaeth bach



Enghreifftiau o offer chwarae y gellid eu defnyddio yn Cosmeston



Ffens â phen bwa o amgylch yr ardal chwarae



Byrddau picnic newydd a sylfaen ar gyfer cyfleusterau lluniaeth

